

**Penguin Pebbling** is a pathway specially for neuro-divergent music-creators – of any genre.

It's a partnership with Aubergine Café, and is led by sound-duo Ardal Bicnic (Heledd C Evans & Rosey Brown) and creative producer Jake Griffiths.

6 selected early-career music-creators will each receive £500 for their participation. Over a series of workshops, they will explore techniques and approaches, leading to a final sharing event/recording.

Workshops will take place in Cardiff on four Saturdays across a two-month period, but applications are welcomed from music-creators from across Wales and expenses will be covered for any artists needing to travel...

**All participants must be free for the following workshops and final sharing in Cardiff (location TBD)**

- 1100-1800, Saturday 23 September – workshop #1
- 1100-1800, Saturday 7 October – workshop #2
- 1100-1800, Saturday 21 October – workshop #3
- 1100-1800, Saturday 4 November – workshop #4
- Time tbc, Saturday 18 November – sharing performance in Cardiff

## **Participants**

- **Genre** Applicants from any musical genre are welcomed.

- **Early-career** Generally speaking this means that eligible applicants will have had their work performed, produced, recorded or broadcast in a professional context on at least one occasion.
- **Welsh music-creators** If you're creating original music and you've been based in Wales for at least a year, you're eligible.
- **Diversity** We are keen to receive applications from individuals who are under-represented / have faced neglect or exclusion from the arts community; we particularly welcome applications from disabled people, Black, Asian and ethnically diverse people, LGBTQ+ people, and people from lower socio-economic backgrounds.
- **Welsh language** While the programme will be run primarily in English, we strongly encourage Welsh-speaking artists to apply, and will ensure there is time and space for bilingual discussion.

## **Why Penguin Pebbling? Is this opportunity right for me?**

We're committed to nurturing talent, especially where people are experiencing barriers or not finding opportunity to express or develop their skills. This pathway is named after an affectionate term used among neuro-divergent people, representing sharing and gift-giving – and aims to create a safe, mutual space for artists to develop their practice together, with carefully curated conditions and support.

If you identify as neuro-divergent and find mainstream settings a challenge, this pathway is for you. The lead artists, creative producer and Tŷ Cerdd are committed to enabling the widest range of music-creators, and Penguin Pebbling will be person-centred and artist-led, for music-creators of any genre.

## **If you're interested, but you have some questions...**

...we can chat with you directly by phone or Zoom. Email creative producer [Jake Griffiths](#) to arrange a call

## **To apply...**

...upload the following information to our [portal](#)

1. **Personal details:** your name, email address, mobile number, address, confirmation that you are over 18 and that you identify as neuro-divergent
2. Tell us about your practice: Tell us what you love to do as a music-creator and what you've been most proud of. *(Max 200 words)*
3. **Why would you like to be part of this pathway?** How do you feel being part of this pathway would support your creative development? Tell us if there any specific areas of work you would like to cover or any previous barriers you have encountered. *(Max 250 words)*
4. **Do you have any specific access requirements?** Tell us if there is any support or any conditions you need to enable you to participate in the pathway. If you want to ask what this might look like, please do get in touch with creative producer [Jake Griffiths](#).
5. **Examples of your work:** please attach 2 links or attachments to your music (NB: please send links rather than sound or video files; if you need help creating links, let us know.)

**Video and audio applications are also welcomed.** Record your answers to questions 2, 3 & 4 above (up to 3 minutes' duration),

and upload a link to your recording, adding the information requested in questions 1 & 5 to the upload form. If you need help creating a link to your video, email us for help.

## **Timeline & process**

**Deadline for applications: 12:00 midday on Thursday 6 July.**

The panel will consist of Jake Griffiths, Heledd C Evans, Rosey Brown, and Deborah Keyser, Director of Tŷ Cerdd, and we'll let you know the outcome w/b **Monday 17 July.**

Mae **Peblo Pengwin** yn llwybr sy'n arbennig ar gyfer pobl niwrowahanol sy'n creu cerddoriaeth o unrhyw genre.

Mae'n bartneriaeth ag Aubergine Café, a dan arweiniad y ddeuawd sain Ardal Bicnic (Heledd C Evans a Rosey Brown) a'r cynhyrchydd creadigol Jake Griffiths.

Bydd 6 o gwyr cerddoriaeth ar ddechrau eu gyrfa yn cael eu dewis a byddant yn derbyn £500 yr un am gymryd rhan. Mewn cyfres o weithdai, byddant yn archwilio technegau a dulliau, gan arwain at ddigwyddiad rhannu/recordio terfynol.

Caiff y gweithdai eu cynnal yng Nghaerdydd ar bedwar dydd Sadwrn dros gyfnod o ddau fis, ond croesewir ceisiadau gan gwyr

cerddoriaeth o bob rhan o Gymru a byddwn yn talu costau ar gyfer unrhyw artistiaid sydd angen teithio...

**Rhaid i'r holl gyfranogwyr fod yn rhydd ar gyfer y gweithdai canlynol a'r sesiwn rhannu ar y diwedd yng Nghaerdydd (lleoliad i'w gadarnhau):**

- 1100-1800, dydd Sadwrn 23 Medi – gweithdy #1
- 1100-1800, dydd Sadwrn 7 Hydref – gweithdy #2
- 1100-1800, dydd Sadwrn 21 Hydref – gweithdy #3
- 1100-1800, dydd Sadwrn 4 Tachwedd – gweithdy #4
- Amser i'w gadarnhau, Dydd Sadwrn 18 Tachwedd – perfformiad rhannu yng Nghaerdydd

## **Cyfranogwyr**

- **Genre** Rydym yn croesawu ymgeiswyr o unrhyw genre cerddorol.
- **Ar ddechrau eu gyrfa** Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd gwaith ymgeiswyr cymwys wedi cael ei berfformio, ei gynhyrchu, ei recordio neu ei ddarlledu mewn cyd-destun proffesiynol o leiaf unwaith.
- **Crewyr cerddoriaeth o Gymru** Os ydych chi'n creu cerddoriaeth wreiddiol ac rydych chi wedi byw yng Nghymru ers o leiaf blwyddyn, rydych chi'n gymwys.
- **Amrywiaeth** Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli / sydd wedi wynebu esgeulustod neu allgáu o'r gymuned gelfyddydol; rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig amrywiol, pobl LGBTQ+, a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

- **y Gymraeg** Er bod y rhaglen yn cael ei chynnal yn Saesneg yn bennaf, rydym yn annog yn gryf i artistiaid Cymraeg eu hiaith ymgeisio, a byddwn yn sicrhau bod amser a lle ar gyfer trafodaeth ddwyieithog.

## **Pam Peblo Pengwin? A yw'r cyfle hwn yn iawn i mi?**

Rydym wedi ymrwymo i feithrin talent, yn enwedig pan fo pobl yn wynebu rhwystrau neu pan nad ydynt yn canfod cyfleoedd i fynegi neu ddatblygu eu sgiliau. Mae'r llwybr hwn wedi'i enwi ar ôl term hoffus a ddefnyddir ymhlith pobl niwrowahanol, sy'n cynrychioli rhannu a rhoi rhoddion – a'i nod yw creu gofod diogel i artistiaid ddatblygu eu hymarfer gyda'i gilydd, gyda'r amodau a'r gefnogaeth wedi'u curadu'n ofalus.

Os ydych chi'n hunanddiffinio eich hun yn niwrowahanol ac yn teimlo bod sefyllfaoedd prif ffrwd yn her, mae'r llwybr hwn ar eich cyfer chi. Mae'r artistiaid arweiniol, y cynhyrchydd creadigol a Tŷ Cerdd wedi ymrwymo i rymuso a galluogi'r ystod ehangaf o grewyr cerddoriaeth. Dan arweiniad artistiaid, bydd Peblo Pengwin yn gweithredu drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn, sef y rheiny sy'n creu cerddoriaeth o unrhyw genre.

## **Os oes gennych ddiddordeb, ond bod gennych ambell gwestiwn...**

...byddem yn fwy na bodlon siarad â chi dros y ffôn neu Zoom. Anfonwch e-bost at y cynhyrchydd creadigol [Jake Griffiths](#) i drefnu galwad.

## **I ymgeisio...**

...lanlwythwch yr wybodaeth ganlynol i'n [porth](#)

1. **Manylion personol:** eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, cyfeiriad, cadarnhad eich bod dros 18 oed a'ch bod yn hunanddiffinio eich hun yn niwrowahanol
2. **Dywedwch wrthym am eich gwaith:** Dywedwch wrthym beth rydych chi'n mwynhau ei wneud fel crëwr cerddoriaeth a beth rydych chi wedi bod fwyaf balch ohono. (*Dim mwy na 200 gair*)
3. **Pam fydddech chi'n hoffi bod yn rhan o'r llwybr hwn?** Sut ydych chi'n meddwl y bydd bod yn rhan o'r llwybr hwn yn cefnogi eich datblygiad creadigol? Dywedwch wrthym os oes unrhyw feysydd penodol yr hoffech roi sylw iddynt neu unrhyw rwystrau blaenorol yr ydych wedi dod ar eu traws. (*Dim mwy na 250 gair*)
4. **A oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran mynediad?** Dywedwch wrthym a oes unrhyw gymorth neu unrhyw amodau sydd eu hangen arnoch i'ch galluogi i gymryd rhan yn y llwybr. Os hoffech ofyn sut beth fydd hwn, cysylltwch â'r cynhyrchydd creadigol [Jake Griffiths](#).
5. **Enghreifftiau o'ch gwaith:** : rhowch 2 ddolen neu atodiadau i'ch cerddoriaeth (noder: anfonwch ddolenni yn hytrach na ffeiliau sain neu fideo; os oes angen help arnoch i greu dolenni, rhowch wybod i ni.)

**Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar fideo neu sain.** Recordiwch eich atebion i gwestiynau 2, 3 a 4 (i bara hyd at 3 munud), a lanlwythwch ddolen i'ch recordiad. Atebwch gwestiynau 1 a 5 ar y ffurflen a lanlwytho honno hefyd. Os oes angen help arnoch i greu dolen i'ch fideo, e-bostiwch ni i gael cymorth.

## **Amserlen a'r broses**

**Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 12:00 ganol dydd ar ddydd Iau 6 Gorffennaf.**

Bydd y panel yn cynnwys Jake Griffiths, Heledd C Evans, Rosey Brown, a Deborah Keyser, Cyfarwyddwr Tŷ Cerdd, a byddwn yn rhoi

gwybod am y canlyniad i chi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau  
ddydd **Llun 17 Gorffennaf**.